

Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Gwerthuso Dewisiadau ar gyfer Ardal Penmaenrhos



© Cynhyrchwyd hwn gan COWI A/S o ffotograffiaeth digidol a gymerwyd ganddynt yn 2006. Trwyddedwyd gan Adran dros Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynnwys

	Tudalen
1 <u>Gwybodaeth Gefndir</u>	2
2 <u>Proffil Penmaenrhos</u>	3
2.1 <u>Proffiliau Ward</u>	3
2.2 <u>Crynodeb o Broffil yr Ysgolion</u>	5
2.2.1 <u>Ysgol Babanod Penmaenrhos</u>	5
2.2.2 <u>Ysgol Tan y Marian</u>	8
3 <u>Asesiadau Effaith – Canfyddiadau Allweddol</u>	11
3.1 <u>Asesiad Effaith Cymunedol</u>	12
3.2 <u>Asesiad Effaith Iaith</u>	13
3.3 <u>Asesiad Effaith Cludiant</u>	14
3.4 <u>Gwerthusiad Adeiladau ‘Addas i’r Pwrpas’</u>	14
3.5 <u>Asesiad Effaith Cydraddoldebau</u>	15
3.6 <u>Adlewyrchu Barn y Rhai a Effeithir yn Fwyaf Uniongyrchol</u>	16
3.6.1 <u>Barn y Gymuned</u>	16
3.6.2 <u>Barn y Plant</u>	16
3.7 <u>Lleoedd Disgyblion</u>	18
4 <u>Gwerthusiad o Ddewisiadau Penmaenrhos</u>	19
4.1 <u>Casgliadau’r Gwerthusiad o Ddewisiadau</u>	20
4.1.1 <u>Dewis 1 ‘Ysgol Ardal Newydd ar Safle Tan y Marian’</u>	20
4.1.2 <u>Dewis 2 ‘Cadw’r Ysgolion Presennol’</u>	21
4.1.3 <u>Dewis 3 ‘Ysgol Ardal ar y Ddau Safle sy’n Bodoli’</u>	21
Atodiad 1 – <u>Pwysoli’r Meini Prawf</u>	22
Atodiad 2 – <u>Adlewyrchu Barn y Rhai a Effeithir yn Fwyaf Uniongyrchol</u>	23
Atodiad 3 – <u>Gwell Cyfatebiaeth rhwng y Galw am a Darparu Lleoedd i Ddisgyblion</u>	24
Atodiad 4 - <u>Strategau a Pholisiau Sylfaenol</u>	25

1. Gwybodaeth Gefndir

Dros y tair blynedd ddiwethaf mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn cynnal adolygiad manwl o'i ysgolion cynradd. Canlyniad hyn oedd cyhoeddi '*Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy*' a'r '*Cynllun Gweithredu*' cysylltiedig yn Hydref 2010, a'u hadolygwyd a'u cytuno gan y Cabinet yn Nhachwedd 2011.

Cytunodd y Cabinet hefyd i ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau yn y Cynllun Gweithredu.

Casglwyd gwybodaeth allweddol, gan gynnwys asesiadau effaith ar iaith; cydraddoldeb; cludiant; cymuned; ac adeiladau addas i'r pwrpas, i gyfeirio'r gwerthusiad dewisiadau hwn. Mae'r holl asesiadau effaith wedi eu crynhoi yn adrannau 2 a 3 yr adroddiad hwn ac ar gael ar ein tudalennau gwe www.conwy.gov.uk/addysg, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth am y cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd.

2. Proffil Penmaenrhos

2.1 Proffiliau Ward

Mae aneddiad Penmaenrhos wedi'i gynnwys yn bennaf yn wardiau Colwyn a Llysfaen ar hyd Lôn Peulwys. Mae dwy ysgol gynradd yn yr ardal sef Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian. Mae Ysgol Babanod Penmaenrhos yn cynnig addysg i ddisgyblion o 3 i 7 oed. Mae Ysgol Tan y Marian yn cynnig addysg i ddisgyblion o 7 i 11 oed.

Mae dalgylch y ddwy ysgol yn cynnwys canol a rhan ddwyreiniol Ward Colwyn ac aneddiad bychan i'r gorllewin o ward Llysfaen (Stad Peulwys). Mae Ward Colwyn yn cynnwys cyfran ychydig yn uwch o bobl ifanc hyd at 15 oed na'r cyfartaledd cymedr ar gyfer Sir Gonwy, a chyfran ychydig yn is o bobl o oed pensiwn.

Mae Ward Llysfaen yn cynnwys cyfran uwch o bobl ifanc hyd at 15 oed na'r cyfartaledd cymedr ar gyfer Sir Gonwy, ac ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o fewn yr oedran 16 - 29 a 30 - 44. Mae gan Llysfaen gyfran arwyddocaol is o bobl o oed pensiwn a chyfran ychydig yn is o bobl 45 oed hyd oed pensiwn.

Cyfanswm poblogaeth y ddwy ward yw 7,050¹. Nifer y preswylfeydd o fewn dalgylch y ddwy ysgol yw 1,337 gyda 3,488 o breswylfeydd o fewn milltir i Ysgol Tan y Marian a 3,789 o breswylfeydd o fewn milltir i Ysgol Babanod Penmaenrhos.

Ers cychwyn cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn 2007, gorffennwyd 45 o anheddau newydd yn ward Colwyn a saith yn ward Llysfaen. Mae dau safle mawr arall hefyd gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer 48 o anheddau yn ward Colwyn. Yn seiliedig ar raddfeydd cwblhau blaenorol, byddem yn rhagweld tua 70 anedd yn cael eu hadeiladu yng Ngholwyn a 13 yn Llysfaen ar safleoedd y gobeithir eu cael ar gyfer adeiladu yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun. Yn wardiau Colwyn a Llysfaen, cynigir 355 o anheddau ar safleoedd newydd dros gyfnod y CDLI. Mae'r mwyafrif o'r rhain wedi'u lleoli ar safle fferm Tŷ Mawr (ward Llysfaen) gyda 255 anedd sy'n cynnwys cytundeb Adran 106.² Cynigir 70 o anheddau ychwanegol ym mhentref Llysfaen, ar ddau safle a 30 anedd ar hen safle Ysgol y Graig yn ward Colwyn yn llunio gweddill y dyraniadau newydd yn yr ardal hon.


Gallai 24 disgybl cynradd arall o bosib fyw yn yr anheddau ychwanegol hyn yn nalgylch Penmaenrhos a gallai 32 disgybl cynradd posib arall fyw yn yr anheddau newydd yn nalgylch Tan y Marian.³

¹ Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2009, Swyddfa Ystadegau Gwladol; amcangyfrifon poblogaeth ardal fechan arbrofol ONS

Cytundeb Adran 106 yw rhestr o amodau cynllunio sy'n rhaid eu cyflawni gan gwmni sy'n dymuno adeiladu cynllun unrhyw le. Er enghraifft, gall cynllun o 10 o dai mewn tref ofyn am gyfraniad at ffyrdd lleol er mwyn gallu cefnogi cynnydd yn llif y traffig, neu tuag at fan agored neu gyfleusterau chwarae gerllaw.

³ Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (Argraffiad diwygiedig 2011) Polisi Strategol HOU/1 – Cyfarfod a'r angen am dai

Map 1: Wardiau Colwyn a Llysfaen gydag Ysgolion Penmaenrhos a Than y Marian




© Hawlfraint y Goron a hawliau basdata 2012 Arolwg Ordnance 100023380
Mae defnydd o'r data hwn yn amodol ar delerau ac amodau.

Cyfraddau Genedigaethau Conwy⁴

Mae cyfraddau genedigaethau yng Nghonwy er 1981 wedi aros yn weddol gyson, gyda chynnydd o 4% neu 38 genedigaeth yn unig o 1981 i 2005. Mae'r data diweddaraf yn dangos fod genedigaethau yng Nghonwy wedi cynyddu'n araf ers 2004/05. Fodd bynnag rhagamcenerir y bydd genedigaethau yn gostwng ychydig o 2008/09 ymlaen a rhagamcenerir y bydd y gostyngiad hwn yn parhau trwy gydol y cyfnod amcanestyniad hyd 2033 (gostyngiad o thua 12%). Mae'r gostyngiad hwn mewn genedigaethau o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y merched o oedran ffrwythlondeb (15-49) trwy gydol y cyfnod rhagamcaniad.

Siart 1: Rhagamcaniadau Genedigaethau Conwy – seiliedig ar Ragamcaniadau Poblogaeth Awdurdod Lleol LIC ar gyfer Cymru (seiliedig ar 2008) – Adroddiad Crynodeb



⁴ Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru LICC (sail-2008) – Taflen Gyfarwyddyd

2.2 Crynodeb o Broffiliau Ysgolion

2.2.1 Ysgol Babanod Penmaenrhos

Ysgol babanod cymunedol yw Ysgol Babanod Penmaenrhos i blant 3 - 7 oed. Mae wedi'i lleoli ar Ffordd y Graig, Penmaenrhos, Bae Colwyn yn gwasanaethu ardal Peulwys o Hen Golwyn yn bennaf ac fe'i sefydlwyd yn 1918.

Saesneg yw prif iaith yr ysgol a daw'r mwyafrif o ddisgyblion o gartrefi ble siaredir Saesneg.

Mae staff addysgu Ysgol Babanod Penmaenrhos yn cynnwys pennaeth parhaol (gydag ymroddiad addysgu o o leiaf 50%) a tri athro amser llawn. Yn darparu cefnogaeth ychwanegol i'r disgyblion mae 6 cymhorthydd addysgu a gweinyddwr rhan amser.⁵

Y maint dosbarth cyfartalog yw 15.3 disgybl, yn amrywio o 13 mewn un dosbarth, hyd at 17 mewn un arall.⁶

Nifer y disgyblion a lleoedd gwag


Yn Ionawr 2012, roedd 65 disgybl yn mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos, 19 ohonynt yn mynychu'n rhan amser fel disgyblion meithrin. Dros y bum mlynedd diwethaf mae nifer y disgyblion wedi gostwng ychydig o 47 i 46 disgybl llawn amser sydd wedi golygu cynnydd yng nghanran y lleoedd gwag (ac eithrio disgyblion meithrin) o 42% yn 2008 i 43% yn 2012.

Yn ôl ffigyrau disgyblion rhagamcanedig disgwylir y bydd rhywfaint o gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos erbyn 2017, a fyddai'n lleihau nifer y lleoedd gwag yn yr ysgol i 38%.

Pe bai safle Fferm Tŷ Mawr (sy'n rhan o gytundeb Adran 106 a eglurwyd uchod) fel nodwyd yn y CDLI yn cael ei ddatblygu ar gyfer tai, gallai'r datblygiad arfaethedig olygu 24 disgybl ychwanegol yn byw o fewn dalgylch Ysgol Babanod Penmaenrhos. Gallai hyn o bosib leihau nifer y lleoedd gwag yn yr ysgol i 8.64% erbyn 2017.

Data Dalgylch

Map 2: Dalgylch Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian



© Hawlfraint y Goron a hawliau basdata 2012 Arolwg Ordnance 100023380
Mae defnydd o'r data hwn yn amodol ar delerau ac amodau.


⁵ Dychweliad PLASC Statudol, Ionawr 2012

⁶ Dychweliad PLASC Statudol, Ionawr 2012

Yn Ionawr 2012, roedd 65 disgybl (gan gynnwys meithrin) yn mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos.


Wrth gymharu cyfeiriadau'r disgyblion hyn yn erbyn y dalgyllch lleol ar gyfer Ysgol Babanod Penmaenrhos, dangosodd fod 6% o'r disgyblion hyn yn mynychu o du allan i ddalgyllch Ysgol Penmaenrhos.

Siart 2: Proffil 1 Dalgyllch Ysgol Penmaenrhos




Mae mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu o du allan i ddalgyllch Ysgol Babanod Penmaenrhos yn byw yn dalgyllch Ysgol Glan y Môr. Mae'r gweddill yn mynychu o ddalgyllch Ysgol Cynfran (gweler Siart 3 isod).

Siart 3: Proffil 2 Dalgyllch Ysgol Penmaenrhos



I'r gwrthwyneb, mae 70% arwyddocaol o ddisgyblion sy'n byw yn dalgyllch Ysgol Babanod Penmaenrhos yn dewis peidio mynychu eu hysgol leol, 60% am resymau anhysbys (nid yn seiliedig ar ffydd na chyfrwng y Gymraeg). Roedd y mwyafrif wedi'u cofrestru yn Ysgol T. Gwynn Jones (dros 60 disgybl) ac Ysgol Cynfran (dros 30 disgybl), gydag eraill yn dewis amrywiol ysgolion rhwng Bae Colwyn ac Abergele (gweler Siart 4 isod).

Siart 4: Proffil 3 Dalgylch Ysgol Penmaenrhos 3



Safonau

Arolygwyd Ysgol Babanod Penmaenrhos ddiwethaf gan ESTYN ym Mehefin 2011, a chanfuwyd fod 'yr amgylchedd yn gynnes ac yn groesawgar ac mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae prawf o welliant mewn safonau dros y pedair blynedd diwethaf'.

Yn y saith cwestiwn allweddol yr arolwg gellir dyfarnu'r graddau canlynol:

Dyfarniad	Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu
Ardderchog	Nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer sy'n arwain y sector
Da	Nifer o gryfderau a dim meysydd pwysig angen gwelliant arwyddocaol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Meysydd pwysig i'w gwell yn gorbwyso'r cryfderau

Y canlyniadau a roddwyd gan ESTYN i Ysgol Babanod Penmaenrhos oedd:

Cwestiwn Allweddol	Gradd Arolwg
1 Pa mor dda yw'r deilliannau?	Da
2 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
3 Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da

O ran ansawdd yr addysg a ddarperir, dyfarnodd ESTYN fod 'yr addysgu yn dda yn gyffredinol ac mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a staff cefnogi'

2.2.1 Ysgol Tan y Marian

Ysgol iau gymunedol yw Ysgol Tan y Marian i ddisgyblion 7 - 11 oed. Wedi ei hadeiladu yn 1984, mae wedi'i lleoli yn Sŵn y Don, Penmaenrhos, ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Mae staff addysgu Ysgol Tan y Marian yn cynnwys pennaeth parhaol (gydag ymroddiad addysgu o o leiaf 50%) a phedwar athro (tri llawn amser ac un rhan amser). Yn darparu cefnogaeth ychwanegol i'r disgyblion mae 4 cymhorthydd addysgu ac un gweinyddwr llawn amser.⁷

Y maint dosbarth cyfartalog yw 14 disgybl, yn amrywio o 12 mewn un dosbarth, hyd at 17 mewn un arall.⁸

Nifer y disgyblion a lleoedd gwag

Yn Ionawr 2012, roedd 56 disgybl yn mynychu Ysgol Tan y Marian. Dros y bum mlynedd diwethaf mae nifer y disgyblion wedi gostwng 29 disgybl llawn amser, sydd wedi golygu cynnydd yng nghanran y lleoedd gwag o 29% yn 2008 i 53% yn 2012.

O edrych ar ffigyrau disgyblion rhagamcanedig mae'n debygol y byddwn yn gweld cynnydd o tua 9 disgybl erbyn 2017, gan olygu lleihad posib yng nghanran y lleoedd gwag i tua 46%.

Pe bai safle Fferm Ty Mawr (sy'n rhan o gytundeb Adran 106 a eglurwyd uchod) fel nodwyd yn y CDLI yn cael ei ddatblygu ar gyfer tai, gallai'r datblygiad arfaethedig olygu 32 disgybl cynradd ychwanegol yn byw o fewn dalgylch Ysgol Tan y Marian. Gallai hyn o bosib leihau nifer y lleoedd gwag yn yr ysgol i 19.17% erbyn 2017.

Data Dalgylch


Yn Ionawr 2012 roedd 56 disgybl yn mynychu Ysgol Tan y Marian.

Wrth gymharu cyfeiriadau'r disgyblion hyn yn erbyn y dalgylch lleol ar gyfer Ysgol Tan y Marian dangosodd fod 13% o'r disgyblion hyn yn mynychu o du allan i ddalgylch Ysgol Tan y Marian.

⁷ Dychweliad PLASC Statudol, Ionawr 2012


⁸ Dychweliad PLASC Statudol, Ionawr 2012

Siart 5: Proffil 1 Dalgylch Ysgol Tan y Marian




Roedd y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Tan y Marian yn hytrach na'u hysgol leol yn byw yn nalgylchoedd ysgolion eraill ledled y sir fel y dangosir yma ar siart 6.

Siart 6 Proffil 2 Dalgylch Ysgol Tan y Marian



I'r gwrthwyneb, mae 69% arwyddocaol o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Tan y Marian yn dewis peidio mynychu eu hysgol leol, 56% am resymau anhysbys (*nid* yn seiliedig ar ffydd na chyfrwng y Gymraeg). Mae dros hanner y disgyblion wedi'u cofrestru yn Ysgol Hen Golwyn (49 disgybl), gydag eraill yn dewis ysgolion ar draws y sir (*gweler Siart 7 isod*).

Siart 7: Proffil 3 Dalgylch Ysgol Tan y Marian



Safonau

Arolygwyd Ysgol Tan y Marian ddiwethaf gan ESTYN yn Nhachwedd 2011; a chanfuwyd fod 'y parch rhwng disgyblion ac oedolion, ynghyd â'r synnwyr o bwrpas sy'n treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol, yn hyrwyddo sail dda ar gyfer dysgu ac addysgu effeithiol'.

Yn y saith cwestiwn allweddol yr arolwg gellir dyfarnu'r graddau canlynol:

Dyfarniad	Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu
Ardderchog	Nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer sy'n arwain y sector
Da	Nifer o gryfderau a dim meysydd pwysig angen gwelliant arwyddocaol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella
Anfodddhaol	Meysydd pwysig i'w gwell yn gorbwyso'r cryfderau

Y canlyniadau a roddwyd gan ESTYN i Ysgol Tan y Marian oedd:

Cwestiwn Allweddol	Gradd Arolwg
1 Pa mor dda yw'r deilliannau?	Da
2 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
3 Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da

O ran ansawdd yr addysg a ddarperir i blant, dyfarnodd ESTYN fod "Mae'r cysylltiadau cryf a ffurfiwyd gyda'r ysgol fabanod a'r brif ysgol uwchradd yn lleddfu trosiant y disgyblion o un cyfnod allweddol i'r nesaf ac yn sicrhau cysondeb a dilyniant mewn dysgu. Mae trefniadau priodol ar gyfer cymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd y cyfnod sylfaen"

3. Asesiadau Effaith – Canfyddiadau Allweddol

Cefnogir yr Asesiadau Effaith a gynhaliwyd gan fethodoleg glir sydd ar gael i'w gweld yn fersiwn llawn pob Asesiad Effaith ar ein tudalennau gwe www.conwy.gov.uk/addysg.

Bu i bob Asesiad Effaith ystyried y dewisiadau canlynol o Gynllun Gweithredu 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy' ar gyfer ardal Penmaenrhos:

Ardal	Ysgolion	Band Ymgynghori	Dewis 1 (arweinig gan y gyrwyr)	Dewis 2 (dewis y gymuned)	Dewis 3
Penmaenrhos	Babanod Penmaenrhos Tan y Marian	A	Ysgol ardal ar safle Tan y Marian	Cadw'r ysgolion presennol	Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli

Dewis 1: Byddai'n golygu cau Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian yn statudol a sefydlu ysgol newydd ar safle Tan y Marian. Byddai'r ysgol newydd yn ysgol gynradd i blant 3 – 11 oed ac yn gwasanaethu'r cymunedau yn y dalgylch gydag un pennaeth ac un corff llywodraethol.

Dewis 2: Byddai'r ysgolion yn cadw eu hunaniaeth ar wahân eu hunain, bob un a'u pennaeth a'u corff llywodraethol eu hunain. Byddai dal angen buddsoddiad yn y ddau safle sy'n bodoli i ddod a hwy i fyny i safonau 'addas i'r pwrpas'.

Dewis 3: Byddai'n golygu cau Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian yn statudol, yna eu hail agor fel un ysgol gynradd i blant 3 – 11 oed ar y ddau safle sy'n bodoli. Byddai gan yr ysgol enw newydd a byddai'n cael ei rheoli gan un pennaeth ac un corff llywodraethol ar draws y ddau safle. Byddai dal angen buddsoddiad yn y ddau safle sy'n bodoli i ddod a hwy i fyny i safonau 'addas i'r pwrpas'.

Yn yr asesiadau effaith, bu i'r amrywiol fethodoleg gynhyrchu sgôr a luniodd ran o'r Gwerthusiad Dewis hwn, gyda sgôr o 1-5 (gweler Atodiad 1 ar gyfer y matrices pwysoli), gydag 1 y sgôr isaf a 5 yr uchaf:

- 5 – Cytuno'n Gryf / Gwelliant
- 4 – Cytuno / Rhywfaint o Welliant
- 3 – Ddim yn Cytuno nac Anghytuno / Dim newid
- 2 – Anghytuno / Rhywfaint yn Waeth
- 1 – Anghytuno'n Gryf / Gwaeth

3.1 Asesiad Effaith Cymunedol

Darparu gwell cysylltiadau gyda'r gymuned o fewn Ysgol Fro sy'n darparu cyfleoedd a phrofiadau sy'n cyfoethogi i bawb:

	1 Anghytuno'n Gryf / Gwaeth	2 Anghytuno / Rhywfaint yn Waeth	3 Ddim yn Cytuno nac Anghytuno / Dim newid	4 Cytuno / Rhywfaint o Welliant	5 Cytuno'n Gryf / Gwelliant
Dewis 1		✓			
Dewis 2			✓		
Dewis 3		✓			

Canlyniad yr asesiad effaith yw bod 'cadw'r ysgolion sy'n bodoli' (dewis 2) yn sgorio ychydig yn uwch na'r ddau ddewis arall, gan y byddai'n cyd-fynd â dewis y gymuned ac ni fyddai unrhyw newid i'r ddwy ysgol a'u disgyblion a'u staff.

Mewn cymhariaeth mae Dewis 1 (ysgol ardal ar safle Tan y Marian) a Dewis 3 (ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli) yn gweld canlyniad rhywfaint yn negyddol am y rhesymau canlynol:

Yn Ysgol Babanod Penmaenrhos mae 94% o'r disgyblion yn mynychu o fewn dalgylch yr ysgol. Fodd bynnag, mae 70% o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Penmaenrhos yn peidio â mynychu eu hysgol leol ac mae 60% o'r rhain am resymau heblaw ffydd neu iaith.

Gan ystyried y ffigyrau hyn deallir fod daearyddiaeth leol yn chwarae rhan allweddol wrth benderfynu pa ysgolion mae disgyblion yn y dalgylch yn eu mynychu. Mae gwybodaeth anecdotaidd yn awgrymu tuedd o ddisgyblion sy'n byw ar stad Tan Lan yn mynychu Ysgol T Gwynn Jones er eu bod o fewn dalgylch Penmaenrhos. Mae allt serth a ffordd brysur yn rhwystrau cydnabyddedig ar gyfer plant iau.

Gallai symud i un ysgol ar safle Ysgol Tan y Marian weld y patrwm hwn yn cynyddu. Gallai'r siwrnai/llwybr i ac o Ysgol T Gwynn Jones fod yn ffactor cyfrannol mawr yn y penderfyniad hwn.

Yn Ysgol Tan y Marian mae 87% o'r disgyblion yn mynychu o fewn dalgylch yr ysgol. Fodd bynnag, mae 69% o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Tan y Marian yn peidio â mynychu eu hysgol leol ac mae 56% o'r rhain am resymau heblaw ffydd neu iaith.

Eto ymddengys fod tuedd, gan fod y mwyafrif o'r disgyblion hyn yn mynychu Ysgol Hen Golwyn, sef ysgol fwydo iau ar gyfer Ysgol T Gwynn Jones. Gall daearyddiaeth leol a'r siwrnai/llwybr i'r ysgol fod yn ffactor wrth i rieni benderfynu peidio ag anfon eu plant i'w hysgol leol ac ystyri'r y posibilrwydd i'r patrwm hwn gynyddu eto.

O ran cyfleusterau cymunedol, nid yw'r glir os byddai gwasanaeth a ddarperir gan Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian yn cael ei gynnwys pe byddai ysgol ardal ar safle Tan y Marian. Mae Canolfan Gymunedol Peulwys a'r Ardal yn cael ei rhedeg gan bartneriaeth annibynnol a thra ei bod yn cael ei defnyddio gan yr ysgol yn ystod amser ysgol nid yw ar gyfer eu defnydd hwy yn unig. Tra ymddengys y byddai bob grŵp yn gallu cael eu cynnwys byddai hyn yn dibynnu ar amseroedd y defnydd gan y grwpiau, byddai hyn angen ystyriaeth a monitro.

Pe byddai angen cynnydd sylweddol mewn mynediad neilltuedig yn ystod y dydd i'r ganolfan gymunedol byddai hyn yn golygu colli cyfleuster cymunedol yn ystod y dydd gan olygu ychydig o ddirywiad.

3.2 Asesiad Effaith Iaith

Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog:

	1 Anghytuno'n Gryf / Gwaeth	2 Anghytuno / Rhywfaint yn Waeth	3 Ddim yn Cytuno nac Anghytuno / Dim newid	4 Cytuno / Rhywfaint o Welliant	5 Cytuno'n Gryf / Gwelliant
Dewis 1			✓		
Dewis 2			✓		
Dewis 3			✓		

Mae'r ddwy ysgol mewn ardal ble siaredir Saesneg yn bennaf a bydd Saesneg yn parhau i fod yn brif gyfrwng yr addysg a chyfathrebu yn yr ysgol a rhwng yr ysgol a'r cartref.

Canlyniadau'r asesiad effaith iaith Gymraeg (adran 3) yw:

- Dewis 1- ysgol ardal ar un safle Niwtral
- Dewis 2 – cynnal yr ysgolion presennol Niwtral
- Dewis 3 – ysgol ardal ar y 2 safle sy'n bodoli Niwtral

Felly, argymhelliad yr asesiad effaith iaith yw bod ysgol ardal, un ai ar un safle (Dewis 1) neu ar y ddau safle sy'n bodoli (dewis 3) yn cael ei ystyried fel y ffordd gorau ymlaen i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r manteision fodd bynnag, yn ymylol ac yn seiliedig ar fanteision yn codi o gyd gorff llywodraethol gyda chynllun a dull cyffredin gyda'r argymhellion canlynol i gefnogi newid:

- A1 Mewn ymgynghoriad â disgyblion a rhieni, o dan ddewis 1 a 3 byddai'r cyd lywodraethwyr yn llunio polisi ynghylch datblygu eu hymarfer da mewn addysgu Cymraeg fel ail iaith. Dylai'r polisi ystyried ffyrdd o gefnogi defnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg fel ail iaith y tu allan i'r dosbarth.
- A2 Cedwid llygad ar y polisi gan y cyd lywodraethwyr a'i effaith yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- A3 Mae tracio effeithiol o sgiliau disgyblion eisoes yn bodoli yn y ddwy ysgol. Bydd cyfuno'n ceisio datblygu'r ymarfer gorau sy'n bodoli a chanolbwyntio'n rhannol ar fonitro gallu disgyblion i gaffael y Gymraeg fel ail iaith.
- A4 O dan Ddewis 1 a 3 bydd y cyd lywodraethwyr yn llunio polisi ysgol ar ddatblygu ymarfer da sy'n bodoli wrth hyrwyddo'r "Cwricwlwm Cymreig". Mae hyn yn cynnwys y dimensiwn Cymreig mewn cynllunio cwricwlwm fel bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru.

3.3 Asesiad Effaith Cludiant

Bydd disgyblion yn cyrraedd yr ysgol o fewn amser teithio priodol:

	1 Cytuno / Gwaeth	2 Anghytuno / Rhywfaint yn Waeth	3 Ddim yn Cytuno nac Anghytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Rhywfaint o Welliant	5 Cytuno'n Gryf / Gwelliant
Dewis 1				✓	
Dewis 2			✓		
Dewis 3			✓		

Mae canfyddiadau'r asesiad effaith yn cadarnhau fod dewis 2 a 3 yn darparu canlyniad niwtral ac yn cynnig dim newid i'r trefniadau presennol nac amser teithio.

Yn achos dewis 1, yn bresennol mae 10 o deuluoedd gyda phlant sy'n mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos gyda phlant yn Ysgol Tan y Marian (sy'n cyfateb i 20% o gyfanswm y disgyblion ar y ddau safle). Mae hyn yn debygol o gynyddu i 14 teulu yn y flwyddyn academaidd nesaf (26% o gyfanswm y disgyblion). Byddai ysgol wedi'i chyfuno ar safle Tan y Marian yn lleihau amser teithio i rieni gyda phlant yn y ddwy ysgol a byddai'n golygu rhywfaint o welliant.

Gan y bydd y dalgylch yn aros yr un fath gyda bob dewis, ni fydd y pellter o'r man pellaf i'r safleoedd ysgol sy'n bodoli yn fwy na dwy filltir. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, rhagwelir *na fydd* unrhyw gostau cludiant ychwanegol i'w hystyried pe bai'r cyngor yn dewis cymeradwyo dewis 1. O ran darpariaeth ADY efallai y bydd cyfle i wneud arbedion trwy leihau nifer y cerbydau sy'n teithio i un safle yn hytrach na dau gan olygu gostyngiad posib mewn costau cludiant.

3.4 Gwerthusiad Adeiladau 'Addas i'r Pwrpas'

Mae adeilad(au)/safle(oedd) yr ysgol yn 'Addas i'r Pwrpas':

	1 Cytuno / Gwaeth	2 Anghytuno / Rhywfaint yn Waeth	3 Ddim yn Cytuno nac Anghytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Rhywfaint o Welliant	5 Cytuno'n Gryf / Gwelliant
Dewis 1					✓
Dewis 2				✓	
Dewis 3				✓	

Ar sail y Matrics Gwerthuso a'r Gwerthusiad Ariannol (Gwerth Presennol Net, NPV), argymhellir fod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r strategaeth ganlynol:

Dewis 1: Mabwysiadu'r dewis hwn fel y dewis arweiniol i symud ymlaen gan fod ganddo'r sgôr uchaf yn y matrices gwerthuso a'r gost NPV isaf dros y cyfnod o 30 mlynedd.

Mae gan y safle hyblygrwydd ar gyfer newid yn y dyfodol ac yn gyffredin gyda'r dewisiadau eraill, mae ganddo'r posibilrwydd ar gyfer gwell effeithlonrwydd ynni, pan fo arian ar gael.

Dewis 2: Dyma'r trydydd dewis a ddymunir a tra'i fod yn gyfartal gyda dewis 3 ar y matrices gwerthusiad, mae ganddo'r gost NPV uchaf o ganlyniad fformiwla gyllido a chostau benthyca darbodus.

O ran y gwerthusiad 'adeiladau addas i'r pwrpas', mae cynnwys y dewis hwn yr un fath yn union a dewis 3.

Dewis 3: Mae hwn yn gyfartal gyda dewis 2 o ran ei sgôr matrices gwerthuso ond mae ganddo'r ail gost NPV isaf a dylid ei ystyried os na ddewisir dewis 1 am unrhyw reswm.

Mae gan y dewis hwn gostau benthyca darbodus uchel fel dewis 2.

Mae'r dewis hwn yn sgorio'n is na dewis 2 ar sail y costau fformiwla gyllido yn arbennig costau staffio. O ran y gwerthusiad adeiladau addas i'r pwrpas, nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y dewis hwn a dewis 2.

3.5 Asesiad Effaith Cydraddoldebau

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldebau (AE) yn cymryd ystyriaeth o'r canfyddiadau o'r AE iaith, Cludiant, Cymunedol ac Adeiladau i sicrhau na fydd unrhyw grŵp defnyddiwr o dan anfantais gan argymhellion yr adroddiad hwn.

Wrth ystyried demograffeg neu ddaearyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth, bu i bob AE ddatgelu nad oedd nifer sylweddol o ddisgyblion yn ardal Penmaenrhos yn dewis eu hysgol leol. Er y gall yr ALI drafod yn uniongyrchol gyda phenaethiaid i gadw golwg ar dderbyniadau, mae'n aneglur pam fod cynifer o rieni yn dewis ysgol 'y tu allan i'r dalgylch'.

Bu i'r AE Cymunedol hefyd ganfod fod bob ysgol yn darparu ystod o weithgareddau, dim ohonynt angen cyfleusterau arbenigol. Rhagwelir y byddai nifer tebyg neu fwy o weithgareddau yn cael eu darparu mewn unrhyw ysgol yn y dyfodol yn gweithio fel ysgol fro. Mae'r ddwy ysgol mewn ardal ble siaredir Saesneg yn bennaf a bydd Saesneg yn parhau fel y brif iaith addysgu a chyfathrebu yn yr ysgol a rhwng yr ysgol a'r cartref.

Trwy'r AS iaith nodwyd camau i ddatblygu'r ymarfer da sy'n bodoli wrth hyrwyddo'r "Cwricwlwm Cymreig" ac fe'u nodwyd fel argymhellion yn yr adroddiad. Cyflawnir hyn trwy ymgorffori dimensiwn Cymreig wrth gynllunio'r cwricwlwm er mwyn i ddisgyblion gael gwell ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru.

Mae'r AE cludiant yn dangos gan y byddai'r dalgylch yn aros yr un fath gyda bob dewis, nid yw'r pellter o'r man pellaf i'r safleoedd ysgol sy'n bodoli yn fwy na dwy filltir.

Byddai ysgol a gyfunwyd ar safle Tan y Marian yn lleihau amseroedd teithio rhieni sydd â phlant yn y ddwy ysgol a byddai'n golygu rhywfaint o welliant.

3.6 Adlewyrchu Barn y rhai a Effeithir yn Fwyaf Uniongyrchol

	1 Cytuno / Gwaeth	2 Anghytuno / Rhywfaint yn Waeth	3 Ddim yn Cytuno nac Anghytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Rhywfaint o Welliant	5 Cytuno'n Gryf / Gwelliant
Dewis 1				✓	
Dewis 2			✓		
Dewis 3		✓			

(Gweler Atodiad 2 am restr fanwl o sgoriau'r gymuned a'r plant)

3.6.1 Barn y Gymuned

Yn Awst 2009, cytunodd y Cabinet y dylid cynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd yn yr ardaloedd ble nodwyd ysgolion ar gyfer adolygiad dechreuol yn y ddogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu'.⁹ Cadeiriwyd y cyfarfodydd hyn gan hwyluswyr annibynnol gyda'r nod o drafod cynnwys y ddogfen yn fanwl gyda'r ardaloedd, cael eu barn a gwahodd awgrymiadau ar atebion i faterion mewn ardaloedd penodol.

Bu i farn y gymuned gyfrannu at Gynllun Gweithredu - 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy' - o dan 'y Dewis a Ddymunir gan yr Ardal' (2).

Yn achos ardal Penmaenrhos bu i'r gymuned fynegi mai dim newid (dewis 2) oedd eu dewis a ddymunir.

3.6.2 Barn y Plant

Roedd yn well gan blant yn Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian ddewis 1: "Un ysgol ar un safle" (ymuno). O ran dewis 2 a 3 byddai'n well gan y plant ddewis 2: "Cadw'r ysgolion presennol" (aros yr un fath) ond mynegwyd yn glir nad oeddent eisiau dewis 3; i gael 'ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli" (rhannu).

Gyda chaniatâd y penaethiaid a chyrrff llywodraethol, cynhaliwyd sesiynau gweithdai gyda disgyblion blwyddyn 2 yn Ysgol Babanod Penmaenrhos a disgyblion blwyddyn 4 yn Ysgol Tan y Marian i: i) rannu'r dewisiadau ar gyfer eu hysgol gyda'r disgyblion, ac ar gyfer pob dewis, beth fydd yn ei olygu iddynt; a ii) gofyn i'r disgyblion am eu barn ar y dewisiadau ar gyfer eu hysgol - pa un oedd orau ganddynt.

- i) rannu'r dewisiadau ar gyfer eu hysgol gyda'r disgyblion, ac ar gyfer pob dewis, beth fydd yn ei olygu iddynt; a
- ii) gofyn i'r disgyblion am eu barn ar y dewisiadau ar gyfer eu hysgol - pa un oedd orau ganddynt.

Cyflawnwyd hyn trwy dri gweithgaredd allweddol, y cyntaf oedd sioe sleidiau fer addas i blant ar pam fod angen i ni feddwl am newid oedd yn disgrifio'r dewisiadau ar gyfer eu hysgol.

⁹ Dogfen 'Ardaloedd i'w Hadolygu' CBSC – canfod yr ardaloedd ar gyfer adolygiad dechreuol, i'w hadolygu mewn 2-5 mlynedd a ble nad oes unrhyw reswm presennol ar gyfer newid trefniadol













Eglurwyd y dewisiadau fel:

- Dewis 1 – Ymuno
- Dewis 2 – Aros yr un fath
- Dewis 3 – Rhannu

Roedd yr ail weithgaredd yn gofyn i'r plant ystyried y dewisiadau fesul un (beth maent yn ei feddwl). Gan ystyried oedran y disgyblion o Ysgol Babanod Penmaenrhos, cynhaliwyd trafodaeth mewn grwpiau bach a nodwyd a chofnodwyd syniadau'r disgyblion ar ôl y gweithdy. Gofynnwyd i'r disgyblion o Ysgol Tan y Marian ysgrifennu ar ddwylo papur gwyrdd beth oeddent yn ei hoffi am y dewis ac ar ddwylo coch beth nad oeddent yn ei hoffi am y dewis (ar un llaw rwy'n meddwl hyn, ond ar y llaw arall...). Yna gosodwyd y rhain ar ddarn mawr o bapur o dan y dewis hwnnw.

Roedd y trydydd gweithgaredd yn gofyn i'r plant bleidleisio (gwneud penderfyniadau). Bu i ddisgyblion Ysgol Babanod Penmaenrhos bleidleisio gyda ffon yn dangos dewis coch, melyn neu wyrdd. Rhoddwyd taflen bleidleisio i ddisgyblion Ysgol Tan y Marian gyda'r tri dewis arno a llun bawd i fyny, bawd i'r ochr a bawd i lawr o dan bob dewis, gyda bocs ticio yn erbyn bob bawd. Gofynnwyd iddynt roi tic yn erbyn un o'r bodiau ar gyfer pob dewis (gweler isod). Yna cyfrifwyd y pleidleisiau i roi sgôr cadarnhaol, niwtral neu negyddol ar gyfer bob dewis. Cyfrifwyd cyfanswm y sgoriau ar draws y sesiynau yn y ddwy ysgol.

Er mwyn bod yn ddiuedd, gwahoddwyd aelod o gorff llywodraethol a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) yr ysgol i wyllo.

<p style="text-align: center;">Choice 1 - Joining</p> 	<p style="text-align: center;">Choice 2 - Stay the Same</p> 	<p style="text-align: center;">Choice 3 - Sharing</p> 
 <input data-bbox="411 1429 520 1525" type="checkbox"/>	 <input data-bbox="818 1429 927 1525" type="checkbox"/>	 <input data-bbox="1241 1417 1350 1514" type="checkbox"/>
 <input data-bbox="411 1615 520 1711" type="checkbox"/>	 <input data-bbox="818 1630 927 1727" type="checkbox"/>	 <input data-bbox="1241 1630 1350 1727" type="checkbox"/>
 <input data-bbox="411 1816 520 1912" type="checkbox"/>	 <input data-bbox="818 1816 927 1912" type="checkbox"/>	 <input data-bbox="1241 1816 1350 1912" type="checkbox"/>

3.7 Lleoedd Disgyblion

Gwell cyfatebiaeth rhwng y galw am a darparu lleoedd i ddisgyblion:

	1 Cytuno / Gwaeth	2 Anghytuno / Rhywfaint yn Waeth	3 Ddim yn Cytuno nac Anghytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Rhywfaint o Welliant	5 Cytuno'n Gryf / Gwelliant
Dewis 1				✓	
Dewis 2			✓		
Dewis 3			✓		

Pan edrychwn ar Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian, mae'r ganran ragamcanol gyfartalog o leoedd gwag erbyn 2017 yn oddeutu 42%. Mae dadansoddiad llawn o niferoedd disgyblion a lleoedd gwag yn y ddwy ysgol ar gael yn Atodiad 3.

Gan gymryd ystyriaeth o'r goddefiant cytunedig yn seiliedig ar bwyntiau canran:

5 (Gwelliant)	51(+) i 100(+)
4 (Rhywfaint o Welliant)	11(+) i 50(+)
3 (Dim Newid)	10(+) i 10(-)
2 (Rhywfaint yn Waeth)	11(-) i 50(-)
1 (Gwaeth)	51(-) i 100(-)

Mae'r effaith ar leoedd gwag yn sgorio 4 (rhywfaint o welliant) ar gyfer dewis 1, a 3 (dim newid) ar gyfer dewis 2 a 3.

5 – Cytuno'n Gryf / Gwelliant
 4 – Cytuno / Rhywfaint o Welliant
 3 – Ddim yn Cytuno nac Anghytuno / Dim Newid
 2 – Anghytuno / Rhywfaint yn Waeth
 1 – Anghytuno'n Gryf / Gwaeth

4. Gwerthusiad Dewisiadau Ardal Penmaenrhos

(AE – Aseiad Effaith)

Meini Prawf Manteision Anariannol		Pwysiad Cytunedig	Dewis 1 (arweinir gan y gyrwyr) Ysgol ardal ar un safle		Dewis 2 (Cymuned) Cadw'r ysgolion presennol		Dewis 3 Un ysgol ar y ddau safle	
			Crai	Wedi'i bwysoli	Crai	Wedi'i bwysoli	Crai	Wedi'i bwysoli
a	Disgyblion yn cyrraedd yr ysgol o fewn amser teithio priodol (<i>AE Cludiant</i>)	15	4	60	3	45	3	45
b	Gwell cyfatebiaeth rhwng y galw am a darparu lleoedd i ddisgyblion	20	4	80	3	60	4	80
c	Adlewyrchu barn y rhai a effeithir yn fwyaf uniongyrchol	15	4	60	3	45	2	30
d	Adeilad(au)/safle(oedd) yn 'Addas i'r Pwrpas' (<i>AE Adeiladau</i>)	20	5	100	4	80	4	80
e	Ysgol fro (<i>AE Cymunedol</i>)	15	2	30	3	45	2	30
f	Darparu mwy o gyfloed i ddisgyblion ddatblygu sgiliau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (<i>AE Iaith</i>)	15	3	45	3	45	3	45
Cyfanswm Sgôr Dewis (uchafswm ar gael 500)			375		320		310	
Costau Cludiant Amcanedig (fesul diwrnod)			Amherthnasol		Amherthnasol		Amherthnasol	
Gwerthusiad NPV			£ 15,045,250		£ 16,182,870		£ 15,304,180	
Costau cyfalaf cychwynnol			£ 1,216,872		£ 452,764		£ 452,764	
Dyraniad refeniw ysgol (yn cynnwys effaith NNDR sy'n gysylltiedig â Buddsoddiad Cyfalaf)			£702,058		£785,760		£734,281	
Arbedion Refeniw(-) neu Refeniw Ychwanegol Gofynnol(+)			-£ 80,894		+£ 2,805		-£ 48,672	
Cost fesul disgybl			£ 6,268		£ 6,935 (P) £7,097 (TyM)		£6,556	

4.1 Casgliadau'r Gwerthusiad Dewisiadau

Ystyrir mai dewis 1 (un ysgol ar safle Tan y Marian) yw'r dewis gorau o ran manteision a chost.

4.1.1 Dewis 1 'Ysgol Ardal ar safle Tan y Marian'

Ystyrir mai'r dewis hwn yw'r dewis gorau o ran manteision (sgôr 375).

Tra bod gan y dewis hwn y gost adeiladu uchaf gan y golygir adeilad newydd a gwaith ailfodelu, mae ganddo'r gwerth net presennol isaf, tua £259k yn llai drud na dewis 3 dros y cyfnod o 30 mlynedd a £1.137k yn llai na dewis 2.

Mae gan y safle hyblygrwydd ar gyfer newid yn y dyfodol ac yn gyffredin gyda'r dewisiadau eraill, mae ganddo'r potensial ar gyfer gwell effeithlonrwydd ynni, pan fo arian ar gael.

Mae'r buddsoddiad cyfalaf cychwynnol sydd ei angen i gyflwyno'r dewis hwn yn £764k yn fwy na dewisiadau 2 a 3.

Wrth ystyried '*barn y rhai a effeithir yn fwyaf uniongyrchol*', dyma oedd y dewis a ddymunwyd gan blant Ysgol Tan y Marian ac Ysgol Babanod Penmaenrhos ac yn gydradd ail ddewis y gymuned gyfan.

Canlyniad yr asesiad effaith cymunedol yn seiliedig ar y pum mesur yw bod gan ddewis 1 effaith negyddol oherwydd colli dymuniad a'r posibilrwydd o golli cyfleusterau cymunedol.

Argymhellodd yr asesiad effaith iaith Gymraeg fod ysgol ardal un ai ar un safle (dewis 1) neu ar y ddau safle sy'n bodoli (dewis 3) yn cael ei ystyried i fod y ffordd orau ymlaen i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag mae'r manteision yn fychan ac yn seiliedig ar y buddion yn codi o gydgorff llywodraethol a chynllun ac agwedd gyffredin.

Lleoedd gwag – dewis 1 yw'r mwyaf effeithlon o ran lleihau lleoedd gwag. Fodd bynnag, byddai lleoedd gwag dal yn aros tua 20%; mae hyn o ganlyniad i ymarferoldeb cyfarfod y bwletin adeiladu perthnasol, poblogaeth disgyblion ac ymarferoldeb trefniadaeth mewn ysgol a gyfunwyd.

Ar sail yr asesiad effaith cludiant cyffredinol, canfuwyd fod dewis 2 a 3 yr un mor ymarferol, ac yn darparu dim newid i'r trefniadau presennol nac amser teithio.

Fodd bynnag yn achos dewis 1, mae 10 teulu ar hyn o bryd sy'n mynychu Ysgol Babanod Penmaenrhos sydd â phlant yn Ysgol Tan y Marian (mae hyn yn gyfwerth â 20% o gyfanswm nifer y disgyblion yn y ddau safle). Mae hyn yn debygol o gynyddu i 14 teulu yn y flwyddyn academaidd nesaf (26% o gyfanswm nifer y disgyblion). Byddai ysgol a gyfunwyd ar safle Tan y Marian yn lleihau amser teithio i rieni gyda phlant yn y ddwy ysgol ac yn golygu rhywfaint o welliant.

Gan y bydd y dalgylch yn aros yr un fath gyda bob dewis, nid yw'r pellter o'r man pellaf i'r safleoedd ysgol sy'n bodoli yn fwy na dwy filltir. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, rhagwelir *na fydd* unrhyw gostau teithio ychwanegol i'w hystyried pe bai'r cyngor yn dewis cymeradwyo dewis 1. O ran y ddarpariaeth ADY efallai y bydd cyfle i wneud arbedion trwy leihau nifer y cerbydau sy'n teithio i un safle yn hytrach na dau gan olygu gostyngiad bychan posib mewn costau teithio.

4.1.2 Dewis 2 ‘cadw’r ysgolion presennol ar y safleoedd sy’n bodoli’

Sgoriodd y dewis hwn yn ail (sgôr 320) o ran manteision.

Dyma’r drytaf o ran ‘*costau bywyd*’ (Gwerth Net Presennol), tua £1,137k yn fwy na dewis 1 dros y cyfnod o 30 mlynedd. Y gost adeiladu ragamcanedig yw £453k.

Wrth ystyried barn y rhai a effeithir yn fwyaf uniongyrchol, tra mai’r dewis a ddymunwyd gan y disgyblion oedd ‘ysgol newydd’, roedd yn well gan y gymuned ddewis 2. Canlyniad yr asesiad effaith yw na fyddai cadw’r ysgol presennol yn golygu unrhyw effaith negyddol gyffredinol i’r gymuned ac yn adlewyrchu dymuniad y gymuned.

Yn gyffredinol ni fu i’r asesiadau effaith ddangos effaith negyddol nac effaith gadarnhaol ar amser teithio, lleoedd gwag na’r Gymraeg.

4.1.3 Dewis 3 ‘Ysgol ardal ar y ddau safle sy’n bodoli’

Sgoriodd y dewis hwn yn drydydd (sgôr 310) o ran manteision.

Mae gan y dewis hwn yr ail werth net presennol isaf o ychydig iawn dros y cyfnod o 30 mlynedd. Mae’r costau adeiladu yr un fath a dewis 2 a tua thraean hynny yn dewis 1.

Wrth ystyried barn y rhai a effeithir yn fwyaf uniongyrchol, dyma’r dewis lleiaf poblogaidd gyda phlant Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian ac yn gydradd ail ddewis i’r gymuned gyfan. O ran yr asesiad effaith cymunedol, mae dewis 3 yn gweld canlyniad negyddol o ganlyniad i golli dymuniad rhieni.

Bu i’r asesiadau effaith ddangos ychydig o welliant i nifer y lleoedd gwag, ond nid effaith negyddol nac effaith gadarnhaol ar amser teithio, na’r Gymraeg.

Pwysoli'r Meini Prawf

Atodiad 1

Manteision anariannol

Rhestrir y meini prawf ar gyfer gwerthuso dewisiadau isod. Nodwch eich barn am bwysigrwydd cymharol gan ddsbarthu 100 pwynt rhyngddynt. Er enghraifft, os credwch fod maen prawf A ddwywaith yn bwysicach na maen prawf B, yna rhwch ddwywaith yn fwy o bwyntiau iddo. Mae'n bwysig fod nifer y pwyntiau a roddwyd yn gwneud cyfanswm o 100.

Meini prawf Manteision Anariannol*		Points Awarded**
a	Disgyblion yn cyrraedd yr ysgol o fewn amser teithio priodol.	15
b	Gwell cyfatebiaeth rhwng y galw am a darparu lleoedd i ddisgyblion.	20
c	Adlewyrchu barn y rhai a effeithir yn fwyaf uniongyrchol.	15
d	Adeilad(au)/safle(oedd) yr ysgol yn 'Addas i'r Pwrpas'	20
e	Ysgol Fro.	15
f	Yr ysgol(ion) yn cyfarfod anghenion ieithyddol y disgyblion.	15
Cyfanswm		100

Diffiniadau

a	Disgyblion yn cyrraedd yr ysgol o fewn amser teithio priodol.	<ul style="list-style-type: none"> Asesiad Effaith Taith yn bwydo'r maen prawf hwn gan nodi os yw'r daith yn fwy na 45 munud un ffordd (<i>Cynigion Trefniadaeth Ysgolion LICC, Cylchlythyr 23/02</i>).
b	Gwell cyfatebiaeth rhwng y galw am a darparu lleoedd i ddisgyblion.	<ul style="list-style-type: none"> Gostwng % o leoedd gwag (ffigyrau capasiti). Digon o le sbâr i gyfarfod y galw, neu sgor priodol ar gyfer ymestyn (ffigyrau capasiti).
c	Adlewyrchu barn y rhai a effeithir yn fwyaf uniongyrchol.	<ul style="list-style-type: none"> <i>Dewis a Ddymunir gan y Gymuned (2)</i>' yn y Cynllun Gweithredu. Canlyniadau Cyfranogiad Ieuenctid (adio'r sgoriau gyda'i gilydd a rhannu gyda 2)
d	Adeilad(au)/safle(oedd) yn 'Addas i'r Pwrpas'.	<ul style="list-style-type: none"> Gwerthusiad Dewis Strwythurol PMAS yn bwydo'r maes prawf hwn (yn cynnwys hygyrchedd).
e	Ysgol Fro.	<ul style="list-style-type: none"> Asesiad Effaith Cymunedol yn bwydo'r maen prawf hwn.
f	Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	<ul style="list-style-type: none"> Asesiad Effaith Iaith yn bwydo'r maes prawf hwn.

* Bydd gyrrwr a mantais sylfaenol 'Gwelliant Safonau Addysgol yn Barhaus' yn cael ei fonitro a'i fesur yn y tymor hwy (ar ôl gweithredu - cam 3) yn erbyn y man cychwyn ar ddechrau Cam 2.

** Rhoddwyd pwyntiau gan y Bwrdd Prosiect yn blaenoriaethu'r manteision a gysylltir agosaf gyda gyrwyr y prosiect 'Sicrhau fod pob adeilad yn addas i'r pwrpas' a 'Lleihau nifer y lleoedd gwag yn ein hysgolion i lefel derbyniol', a chydabod gwerth yr holl fanteision sy'n weddill yn gyfartal a dim ond ychydig yn llai na'r rhai a gysylltir agosaf gyda'r gyrwyr.

Adlewyrchu barn y rhai a effeithir yn fwyaf uniongyrchol (Mantais c)

Dewis a ddymunir gan yr ardal (2) : Cadw'r ysgolion presennol

5 – Cytuno'n Gryf / Gwelliant
 4 – Cytuno / Ychydig o Welliant
 3 – Ddim yn Cytuno nac Anghytuno/Dim newid
 2 – Anghytuno / Ychydig yn Waeth
 1 – Anghytuno'n Gryf / Gwaeth

Ardal	Ysgolion	Band Ymgynghori	Dewis a arweinir gan y gyrrwyr (1)	Dewis a ddymunir gan yr ardal (2)	Dewis (3)
Ardal Penmaenrhos	Babanod Penmaenrhos Tan y Marian	A	Un ysgol ar un safle (Tan y Marian)	Cadw'r ysgolion presennol	Un ysgol ar ddau safle
Sgôr			2	3	2

Dewis a ddymunir gan blant Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Tan y Marian (1): Un ysgol ar un safle (Ymuno)

Yn dilyn y dewis cyntaf hwn byddai'r plant yna'n dymuno cadw'r ysgolion presennol (dewis 2). Mynegodd y plant yn glir nad oeddent eisiau ysgol ardal ar y ddau safle oedd yn bodoli (Dewis 3)

	Dewis 1 - Ymuno (Dewis 1)	Dewis 2 – Aros yr un fath (dewis 2)	Dewis 3 – Rhannu (dewis 3)
Ysgol Babanod Penmaenrhos	9 Cadarnhaol	2 Cadarnhaol	2 Negyddol
Ysgol Tan y Marian	8 Cadarnhaol	3 Negyddol	4 Negyddol
Cyfanswm	17 Cadarnhaol	-1 Negyddol	-6 Negyddol
Sgôr	5	2	1

Mae hyn yn trosi i'r gwerthusiad dewis cyffredinol fel

Dewis 1 2 plws 5, wedi ei rannu gyda 2 = 3.5 (4)
 Dewis 2: 3 plws 2, wedi ei rannu gyda 2 = 2.5 (3)
 Dewis 3: 2 plws 1, wedi ei rannu gyda 2 = 1.5 (2)

Gwell Cyfatebiaeth rhwng y Galw am a Darparu Lleodd i Ddisgyblion

Ysgol	Dosbarthiad	Cynradd Babanod lau	A-Cymraeg B – Dwyieithog C - Saesneg	Capasiti Ysgol Ion 2012	Nifer y Disgyblion		Lleodd gwag Ionawr 2012		Lleodd gwag Ionawr 2017	
					Ionawr 2012	Rhagamceniir hyd 2017	Nifer	Canran	Nifer	Canran
BABANOD PENMAENRHOS	Cymunedol	B	C	81	46	52	35	43.21%	29	35.80%
TAN Y MARIAN	Cymunedol	C	C	120	56	65	64	53.33%	55	45.83%
<i>Cyfanswm dros y ddau safle</i>				201	102	117	99	49.25%	84	41.79%
Dewis 1: Ysgol newydd ar un safle				148	102	117	46	31.08%	31	20.95%
Dewis 2: Cadw'r ysgolion presennol				201	102	117	99	49.25%	84	41.79%
Dewis 3: Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli				153	102	117	51	33.33%	36	23.53%

Mae'r effaith ar leoedd gwag yn sgorio 4 (ychydig o welliant) ar gyfer dewis 1, a 3 (dim newid) ar gyfer dewis 2 a 3.

Polisiau a Strategau Sylfaenol

Strategaeth Gymunedol Conwy

Mae *'Annog dysgu a chreadigrwydd'* yw un o bum thema Strategaeth Gymunedol Conwy.

Mae darparu cyfleoedd hyfforddiant ac addysg o ansawdd uchel yn hanfodol i wella cymunedau Conwy. Mae darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel a gwasanaethau addysg a hyfforddiant yn rhan allweddol o sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd. Mae plant ac oedolion yn dysgu mewn sawl lle gan gynnwys ysgolion, colegau, sefydliadau hyfforddi, yn y gymdeithas a'r cartref. Rhaid sefydlu diwylliant ble mae unigolion, sefydliadau a busnesau yn cefnogi a hyrwyddo dysgu.

Ysgolion Bro

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â'r fro sy'n darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau i bawb. Mae angen datblygu cyfleoedd i wella ac ehangu'r cwricwlwm o fewn cylch yr ysgol a thu hwnt gan fod o fudd i ddisgyblion a thrigolion lleol. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer strwythurau ysgol yn y dyfodol bydd yr Awdurdod yn cydbwysu anghenion addysgol gyda datblygiad cymunedol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

Ysgolion Lleol (dalgylchoedd)

Bydd rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o nodi ysgolion lleol ar gyfer ardaloedd. Mae gan bob ysgol 'ddalgyloch' diffiniedig. Mae dalgylchoedd (gan fwyaf) yn seiliedig ar ffiniau ward fel y darparwyd gan y Comisiwn Ffiniau. Mae dalgylchoedd yn cael eu mapio ac mae angen eu hadolygu'n achlysurol.

Bydd dalgyloch yn cynnwys sawl milltir sgwâr mewn ardal wledig a gall gynnwys un neu fwy o bentrefi a'u hardaloedd o'u hamgylch. Mewn ardaloedd trefol gyda dwy ysgol neu fwy, bydd y dalgyloch yn gasgliad o strydoedd.

Ysgolion gwledig

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y rhan allweddol mae ysgolion yn eu chwarae mewn ardaloedd gwledig wrth gynnal diwylliant lleol, iaith a ffordd o fyw. Wrth ystyried dewisiadau strwythurau ysgol yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig, bydd yr Awdurdod yn cydbwysu anghenion addysgol gyda datblygiad lleol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

Cynllun Iaith Gymraeg Conwy

Prif nodau ac amcanion y Cynllun Iaith Gymraeg yw:

- Sicrhau fod addysg cyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog ar gael i bob plentyn y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn dymuno iddynt gael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog, o fewn pellter teithio rhesymol o gartref y plant. Golyga hyn blant o oed cyn ysgol a hŷn.
- Sicrhau continwwm sy'n datblygu o addysg gynradd cyfrwng y Gymraeg/dwyieithog hyd at addysg uwchradd cyfrwng y Gymraeg/dwyieithog. Bydd disgyblion sydd wedi cael eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu mynychu ysgol uwchradd cyfrwng y Gymraeg/dwyieithog, i hyrwyddo continwwm ieithyddol o CA4 ymlaen hyd at eu gyfa dysgu gydol oes i ddisgyblion a myfyrwyr yn y sir.
- Darparu cyfleoedd pellach i ddisgyblion gael addysg cyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith gyntaf a/neu ail iaith ar amserlen pob ysgol yng Nghonwy, yn unol â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob cyfnod allweddol.

- Sicrhau fod plant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig yn cael cyfle ieithyddol cyfartal o ran addysg cyfrwng y Gymraeg yn ystod y broses ddatganiadau gyfan, yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru.
- Sicrhau fod pob disgybl sy'n mynychu ysgol cyfrwng y Gymraeg penodedig/dwyieithog yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl erbyn diwedd CA2.
- Gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol er mwyn gwella safon Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Bydd pob ysgol yn y sir yn cael cyngor a chefnogaeth gan ymgynghorwyr y Gymraeg a gan wasanaethau cefnogi ysgolion. Darperir mwy o gefnogaeth gan yr Athrawon Bro a fydd yn ymweld ac yn cadw golwg ar safonau iaith ysgolion ar ran yr AALL.
- Cynnal a hyrwyddo'r '*Rhaglen Hyfforddiant Mewn Swydd*' sy'n bodoli sy'n cefnogi datblygiad y Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith.
- Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ethos/nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy'r Cwricwlwm Cymreig.
- Sicrhau fod disgyblion newydd i'r sir sy'n ymfudwyr di-Gymraeg yn gallu gwneud defnydd llawn o'r Canolfannau Iaith Gymraeg er mwyn iddynt, ar ôl dilyn cwrs Cymraeg dwys, fedru integreiddio'n llawn i'w hysgol a'u cymdeithas.
- Hyrwyddo datblygiad yr AALL o sgiliau Cymraeg disgyblion trwy weithgareddau a phrosiectau penodol sy'n caniatáu ar gyfer trosglwyddo iaith effeithiol o CA2 i CA3.
- Parhau i gynnig hyfforddiant penodol i alluogi athrawon Cymraeg ail iaith i wella eu sgiliau cyflwyno iaith.

Cludiant

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion dan 11 oed, sy'n byw dros ddwy filltir o'u hysgol briodol agosaf.

Darperir cludiant am ddim hefyd i'r disgyblion hynny sy'n cyfarfod meini prawf ychwanegol restrwyd yn y Polisi Cludiant, sy'n cynnwys: rhesymau meddygol, anghenion a nodwyd o fewn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig; llwybrau peryglus.

Mae'r polisi llawn ar gael ar ein gwefan www.conwy.gov.uk, yn uniongyrchol gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy, neu unrhyw ysgol yn y sir.

I gael mwy o wybodaeth am gludiant cysylltwch â Swyddog Cludiant Addysg ar 01492 575592/575595 sy'n gyfrifol am asesu hawl i gludiant, neu Swyddog Cludiant Priffyrdd ar 01492 575413 sy'n gyfrifol am asesu hawl i gludiant.

Derbyniadau

Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o ganiatáu i rieni a disgyblion fynegi eu dymuniad ynghylch eu derbyn i ysgol o'u dewis.

Mae trefniadau derbyn i ysgol naill ai'n gyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ysgolion cymunedol neu reoledig gwirfoddol) neu gyrff llywodraethol (ysgolion sylfaen neu gymorthedig gwirfoddol).

Mae polisi Derbyniadau Conwy ar gael yn '*Nogfen Wybodaeth Ysgolion a Gwasanaeth Addysg*'. Copïau ar gael ar ein gwefan www.conwy.gov.uk/addysg, neu'n uniongyrchol gan Wasanaethau Addysg CBS Conwy.

Cysylltwch â Gwasanaethau Addysg ar 01492 575012 pe bai gennych ymholiadau ynghylch y Polisi Derbyniadau.

Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tlodi Plant Cenedlaethol (Cymru) 2010 – ‘Dyfodol Teg i’n Plant’

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Strategaeth a Chynllun Cyflawni Tlodi Plant yn 2010. Mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru a gwella canlyniadau ar gyfer plant a rhieni sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn gosod fframwaith arfaethedig a chynllun cyflawni i bob corff gyfarfod â'r dyletswyddau hyn ar y cyd. Mae'n drawsbynciol ac wedi ei strwythuro o amgylch y 7 Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Ni chyflwynir Nod Craidd 7 (Ymyrraeth i sicrhau nad ydynt o dan anfantais oherwydd tlodi, ethnigrwydd neu anabledd) gan wasanaethau neu asiantau penodol, ond yn hytrach yn cynnwys themâu trawsbynciol ar draws y bartneriaeth gyfan a phob partner. Felly mae gan bob partner swyddogaeth i'w chwarae wrth gyflawni'r nod hwn.

Mae'r Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi Nod Eang 5 Tlodi Plant (dan arweiniad GNC 2) *'I leihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant a phobl ifanc'*, trwy weithio i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gael yr addysg orau bosib.


Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif LICC

Er mwyn cyflwyno Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy, bydd angen adnoddau cyfalaf sylweddol. Mae LIC wedi darparu manylion rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a sut y bydd angen i CBS Conwy weithio'n agos gyda LIC i wneud y mwyaf o'r rhaglen hon er mwyn cyflwyno'r gwelliannau i adeiladau ysgol sy'n deillio o'r Strategaeth.

Gofynnwyd i bob awdurdod yng Nghymru gyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) i LIC yn amlinellu eu gweledigaeth ar gyfer darpariaeth addysg yn yr 21ain ganrif, ynghyd â rhaglen ddangosol ar gyfnod o ddeng mlynedd. Ar ôl hynny mae LIC wedi gofyn i awdurdodau yng Nghymru adolygu eu hachosion Band A (2014-2020).

Yng Ngorffennaf 2012 cynghorodd LIC awdurdodau yng Nghymru fod eu hachosion amlinellol ar gyfer Band A wedi eu cymeradwyo mewn egwyddor. Bydd y rhaglen o fuddsoddiad rhwng 2014 a 2020 a bydd yn amodol ar achosion Cyfiawnhad Busnes pellach (<£5m) neu achosion busnes Pum Achos (>£5m) i LIC.

Defnyddiwch y dudalen hon i roi eich sylwadau. Gallwch ei chyflwyno yn y cyfarfodydd cyhoeddus, neu ei dychwelyd i'r cyfeiriad isod. Neu e-bostiwch unrhyw sylwadau atom i schools.modernisation@conwy.gov.uk.



Cysylltwch â ni:

E-bost: schools.modernisation@conwy.gov.uk

Rhyngrwyd: www.conwy.gov.uk/addysg

Cyfeiriad: Moderneiddio Ysgolion Conwy, Adeiladau'r Llywodraeth,
Ffordd Dinerth, Llandrillo yn Rhos, Conwy, LL28 4UL